# Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

**2015 dccc 2**

## RHAN 4

BYRDDAU GWASANAETHAU CYHOEDDUS

## PENNOD 3

AMRYWIOL

### 47 Uno byrddau gwasanaethau cyhoeddus

(1) Caiff dau neu ragor o fyrddau gwasanaethau cyhoeddus gytuno i uno os ystyrir y byddai'n eu cynorthwyo i gyfrannu at gyrraedd y nodau llesiant.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo dau neu ragor o fyrddau gwasanaethau cyhoeddus i uno os yw Gweinidogion Cymru yn ystyried y byddai'n cynorthwyo'r byrddau i gyfrannu at gyrraedd y nodau llesiant.

(3) Ond dim ond os y bodlonir y canlynol y caiff byrddau uno—

- (a) mae'r un Bwrdd Iechyd Lleol yn aelod o bob bwrdd sy'n ceisio uno, neu sy'n cael eu cyfarwyddo i uno, a
- (b) nid oes Bwrdd Iechyd Lleol arall yn aelod o unrhyw un o'r byrddau hynny.

(4) Os yw dau neu ragor o fyrddau yn uno—

- (a) rhaid i gyfeiriadau yn y Rhan hon (ac eithrio yn yr adran hon) at fwrdd gwasanaethau cyhoeddus gael eu dehongli fel cyfeiriadau at y bwrdd unedig, a
- (b) rhaid i gyfeiriadau yn y Rhan hon at ardal awdurdod lleol gael eu dehongli fel cyfeiriadau at ardaloedd cyfunedig yr awdurdodau lleol sy'n aelodau o'r bwrdd unedig.

## 48 Cydlafurio rhwng byrddau gwasanaethau cyhoeddus

(1) Caiff dau neu ragor o fyrddau gwasanaethau cyhoeddus gytuno i gydlafurio os ystyrir y byddai'n eu cynorthwyo i gyfrannu at gyrraedd y nodau llesiant.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo dau neu ragor o fyrddau gwasanaethau cyhoeddus i gydlafurio ym mha ffodd bynnag y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried y byddai'n cynorthwyo'r byrddau i gyfrannu at gyrraedd y nodau llesiant.

(3) At ddibenion yr adran hon, mae bwrdd yn cydlafurio os yw'n—

- (a) cydweithredu â bwrdd arall,
- (b) hwyluso gweithgareddau bwrdd arall,
- (c) cydgysylltu ei weithgareddau â bwrdd arall,
- (d) arfer swyddogaethau bwrdd arall ar ei ran, neu
- (e) darparu staff, nwyddau, gwasanaethau neu lety i fwrdd arall.

## 49 Cyfarwyddydau i uno neu i gydlafurio

(1) Cyn rhoi cyfarwyddyd o dan adran 47(2) neu 48(2) rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â phob aelod o'r bwrdd gwasanaethau cyhoeddus y maent yn bwriadu eu cyfarwyddo.

(2) Wrth roi cyfarwyddyd o'r fath, rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi datganiad sy'n cynnwys eu rhesymau dros wneud hynny.

## 50 Dangosyddion perfformiad a safonau

(1) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, bennu dangosyddion a safonau ar gyfer mesur perfformiad byrddau gwasanaethau cyhoeddus o ran arfer ei swyddogaethau.

(2) Cyn gwneud rheoliadau o dan is-adran (1), rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r canlynol—

- (a) aelodau y byrddau neu bersonau sy'n ymddangos i Weinidogion Cymru fel pe baent yn cynrychioli'r aelodau hynny;
- (b) unrhyw bersonau eraill y mae Gweinidogion Cymru yn eu hystyried yn briodol.

## 51 Canllawiau

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i fyrddau gwasanaethau cyhoeddus ynghylch arfer swyddogaethau o dan y Rhan hon.

(2) Wrth arfer swyddogaeth o dan y Rhan hon, rhaid i fwrdd gwasanaethau cyhoeddus ystyried canllawiau o'r fath.